**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw: Manon Elin

Sefydliad: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
E-bost / rhif ffôn: 01970 624501

Eich cyfeiriad: Cymdeithas yr Iaith, Prif Swyddfa, Ystafell 5, Y Cambria, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ

**1. Ydych chi'n cytuno bod angen cryfhau gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol?**

| *Rwy'n cytuno* |
|---|
| √ |

**Rhowch resymau:**

Rydym fel mudiad yn derbyn yn gyson ymholiadau a chwynion gan ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol am eu bod wedi methu derbyn gwasanaeth yn Gymraeg. Mae'n anodd iawn i bobl cwyno am ddiffyg hawl i wasanaeth yn Gymraeg oherwydd maent gan amlaf yn ceisio cefnogaeth y gwasanaethau yma pan fyddant mewn angen ac yn teimlo'n fregus ac mewn perygl.

Mae sawl astudiaeth a darn ymchwil yn dangos pa mor bwysig yw gallu cyfathrebu yn eich dewis iaith yn enwedig mewn sefyllfa o geisio cyfleu problem neu anhawster. Mae sawl enghraifft anffodus o asesiad anghywir a thriniaeth anaddas yn digwydd oherwydd nad yw'r person sy'n ymateb i angen y claf neu'r defnyddiwr gwasanaeth wedi gallu darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg.

Er gwaethaf ugain mlynedd a mwy o fodolaeth cynlluniau iaith gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd mae lle mawr i wella ar y ddarpariaeth Cymraeg cyfredol ar draws Cymru ac mae hawliau dynol sylfaenol pobl i gael eu trin gyda pharch ac urddas ddim yn cael eu cyflawni mewn modd cyson a digonol.

| |
|---|
| |

**2. Ydych chi'n cytuno â'r rhesymau dros gryfhau gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol?**

| *Cytuno â'r rhan fwyaf ohonyn nhw* | *Anghytuno â'r rhan fwyaf ohonyn nhw* |
|---|---|
| √ | |

**Rhowch resymau:**

| |
|---|
| Mae'r rhesymau a roddir yn y ddogfen Ymgynghori dros gryfhau gwasanaethau Cymraeg yn rhai amlwg sydd wedi eu defnyddio a'u datblygu mewn ymchwil gyhoeddus ers cyhoeddi adroddiad Andy Misel ar ran Cyngor Defnyddwyr Cymru y Gymraeg yn y gwasanaeth iechyd. Y brif her yw symud oddi wrth rethreg darparu gwasanaethau yn Gymraeg i sicrhau gweithredu hyn mewn modd cyson a safonol ar draws Cymru ac ar draws yr ystod o wasanaethau. |

**3. Ydych chi'n cytuno, yn hytrach na disgwyl i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd ofyn am wasanaethau Cymraeg, y dylai sefydliadau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol fod yn gyfrifol am wneud 'Cynnig Rhagweithiol' o wasanaethau Cymraeg?**

| ***Ydw, rwy'n cytuno*** |
|---|
| *Rhowch resymau*<br><br>Mae hyn yn egwyddor holl bwysig. Nid yw pobl mewn sefyllfa i fynnu hawliau pan maent yn ceisio chwilio am gefnogaeth neu gyngor iechyd/gofal cymdeithasol. Mae angen i'r cynnig rhagweithiol gael ei wneud mewn modd cwbl gadarnhaol ac effeithiol fel bod y claf neu'r defnyddiwr gwasanaeth yn teimlo yn gwbl gyfforddus a pharod i allu defnyddio eu Cymraeg. Rhaid hefyd sicrhau bod angenhion iaith yn cael eu cofnodi a'u hadolygu ar hyd cyfnod ymwneud gyda'r gwasanaeth. |

**4. Er mai'r nod yw cynnig dewis iaith i bob un, ydych chi'n cytuno y dylid rhoi blaenoriaeth wrth gryfhau gwasanaethau Cymraeg i grwpiau â blaenoriaeth a'u teuluoedd?**

| ***Ydw, rwy'n cytuno*** |
|---|
| |

| |
|---|
| Mae grwpiau blaenoriaeth yn ddefnyddiol o safbwynt blaenoriaethu camau gweithredu ond dylai pob claf a phob defnyddiwr gwasanaeth fedru disgwyl gwasanaeth yn Gymraeg waeth beth yw natur yr angen. Mae cynllunio gwasanaethau o gwmpas anghenion y person unigol yn awgrymu y dylai y cynnig rhagweithiol fod ar gael i bawb. |

**5. Ydych chi'n cytuno y bydd y camau a nodwyd yng nghynllun gweithredu'r fframwaith strategol yn arwain at well gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg a'u teuluoedd nag a ddarperir ar hyn o bryd?**

| |
|---|
| ***Ydw, rwy'n cytuno*** |
| Mae potensial positif amlwg yn y cynllun gweithredu ond mae angen hefyd ei gryfhau gyda gosod targedau ac amserlen pendant ar gyfer sicrhau gweithluoedd dwyieithog sy'n medru cynnig gwasanaeth yn Gymraeg a hefyd manylu mwy ar y camau gweithredu unigol. Byddai templed ar gyfer cynllun gweithredu asiantiaethol unigol o gymorth. Byddai hefyd yn ddefnyddiol disgwyl i gyrff gyhoeddi adroddiad hunan asesiad ar eu darpariaeth Cymraeg a disgwyliad iddynt gyhoeddi gwybodaeth am ba wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg o help, |

**6. Ydych chi'n cytuno'n gyffredinol â'r camau a amlinellwyd yn y cynllun gweithredu?**

| |
|---|
| ***Ydw, rwy'n cytuno*** |
| Ydw ond gweler uchod |

**7. Beth arall ydych chi'n meddwl ddylai fod yn y cynllun gweithredu?**

Amlinelliad o sut fydd cynnydd asiantaethau yn cael eu mesur a'u monitro. Yn ogystal, mae angen camau llawer cadarnach o ran cynllunio'r gweithlu. Nid oes digon o gamau gweithredu yn y cynllun er mwyn sicrhau bod modd darparu gwasanaeth cyflawn Cymraeg.

Mae diffygion difrifol o ran mesurau pendant i gynllunio'r gweithlu a thargedau hyfforddi ar hyn o bryd. Er enghraifft, deallwn, er bod gan brifysgolion targedau o ran nifer y meddygon sy'n cael eu hyfforddi, nid oes targed o ran y nifer o feddygon sy'n siarad Cymraeg. Mae rhaid unioni hyn er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei normaleiddio o fewn y gwasanaeth iechyd. Wedi'r cwbl, staff sy'n darparu'r rhan helaeth o wasanaethau iechyd. Yn ogystal, rydym yn ymwybodol o nifer o feysydd lle mae canran y staff sy'n siarad Cymraeg yn disgyn oherwydd pobl yn ymddeol. Dylai fod rheol bod y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swyddi pan fo siaradwr Cymraeg yn gadael neu'n ymddeol o swydd. Nid yw'r cynllun fel y mae yn gwneud hanner ddigon i fynd i'r afael â'r materion hyn.

**8. A oes gennych unrhyw sylwadau perthnasol eraill yr hoffech eu cynnwys?**

Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma. ☐